Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Castell-nedd Port Talbot Strategaeth Llyfrgelloedd 2025-2030











Neath Port Talbot
LIBRARIES
LLYFRGELLOEDD
Castell-nedd Port Talbot
www.npt.gov.uk/libraries




**"Mae llyfrgelloedd yn storio'r egni sy'n tanio'r dychymyg. Maent yn agor ffenestri i'r byd ac yn ein hysbrydoli i archwilio a chyflawni, ac i gyfrannu at wella ansawdd ein bywyd.**

*Sidney Sheldon*

# Strategaeth Llyfrgelloedd 2025-2030

## Gweledigaeth

Darparu Gwasanaeth Llyfrgelloedd bywiog a chynhwysol i holl breswylwyr ac ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot, gan ysbrydoli'r dychymyg a dysgu, a chreu amgylchedd er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi drwy gyfrwng rhwydwaith gref a chynaliadwy o lyfrgelloedd cyhoeddus, a reolir gan yr Awdurdod Lleol a'r Gymuned. Byddwn ni'n sicrhau fod pob lleoliad yn ddiogel, a byddwn ni'n annog ymgysylltiad cymunedol drwy ddarllen, technoleg a chysylltiadau â diwylliant a threftadaeth.

## Ein Strategaeth

Bydd y strategaeth hon yn amlinellu ein hamcanion a'n gwerthoedd fel gwasanaeth, a'r modd y maen nhw'n cyd-fyw â phedwar nod llesiant a blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2024-2027. Dyma nhw:

1. Pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
2. Pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy
3. Ein hamgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol yn gallu cael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol
4. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydyn ni'n creu amodau ar gyfer gwaith sicrach, gwyrdd, sy'n talu'n dda, a byddwn ni'n cefnogi pobl leol i fynd i'r swyddi hynny.

Mae ein strategaeth hefyd yn cyd-fynd â Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot 2023, i feithrin gwerthfawrogiad o'r amgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol ymysg preswylwyr Castell-nedd Port Talbot.

Bydd yn adlewyrchu'r safon uchel o wasanaeth a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru, fel y nodir yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r safonau hyn yn cynnwys tri ar ddeg o hawliau craidd ac un ar ddeg o ddangosyddion ansawdd sy'n dangos sut mae gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru yn cyflawni eu dyletswydd statudol. Bob blwyddyn, ar ôl cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru, cynhelir asesiad sy'n gwerthuso perfformiad y gwasanaeth ac yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen gwella.

Y tu hwnt i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol, mae'r strategaeth yn pwysleisio cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill yr awdurdod lleol, fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau plant, gwasanaethau amgylcheddol, yn ogystal â phartneriaethau allanol.




## Strategaeth Flaenorol

Cafodd y Strategaeth Llyfrgelloedd a ddyddiwyd 2016-2023 (2016-2021 yn wreiddiol) ei hymestyn oherwydd effaith Covid, a newid yn strwythur rheoli'r gwasanaeth. O blith y saith argymhelliad ar gyfer datblygu i'r dyfodol, cafodd pump eu cyflawni, a bydd y ddau sy'n weddill yn parhau i symud ymlaen i'r strategaeth bresennol.

1. Adleoli Llyfrgell Port Talbot – bydd hyn yn cael ei gario drosodd i'r strategaeth bresennol.
2. Adleoli Llyfrgell Castell-nedd – Fel rhan o raglen Adfywio Tref Castell-nedd, adleolwyd Llyfrgell Castell-nedd i adeilad newydd ym mis Chwefror 2023
3. Problemau cynnal a chadw'r adeilad yn Llyfrgell Sandfields – bydd sylw'n cael ei roi i'r rhain yn y gweithredoedd cynllunio i'r dyfodol ar gyfer y strategaeth hon.
4. Potensial o symud Llyfrgell Sgiwen gyda Chyllid Llywodraeth Cymru. Cyflawnwyd hyn ac adleolwyd Llyfrgell Sgiwen i Neuadd Carnegie.
5. Cerbydau Llyfrgell Symudol – cafwyd cerbydau newydd i gymryd lle'r ddau gerbyd blaenorol – Llyfrgell Symudol lai o faint ond mwy effeithlon, a fan drydan ar gyfer Cyflenwi i'r Cartref.
6. Llwyddwyd i weithredu System Reoli Cymru Gyfan yn 2019 ac fe'i symudwyd i lwyfan newydd ym mis Rhagfyr 2024 gyda chymorth arian oddi wrth Lywodraeth Cymru.
7. Llwyddwyd i leihau costau ailwefru mewnol drwy adolygu arferion presennol.




## Ble ydym ni nawr?

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot yn darparu wyth Llyfrgell Gangen, Llyfrgell Symudol, gwasanaeth Cyflenwi Gartref, Llyfrgell Deganau, a Chydlynydd Dechrau Da i ddarparu ein rhwymedigaethau statudol. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i saith llyfrgell a reolir gan y gymuned, dan arweiniad gwirfoddolwyr.

Lleolir yr wyth llyfrgell dan ofal Castell-nedd Port Talbot ym Maglan, Cwmafan, Glyn-nedd, Castell-nedd, Pontardawe, Port Talbot, Sandfields a Sgiwen. Rheolir a chynhelir y llyfrgelloedd hyn gan staff llyfrgell hyfforddedig a gyflogir gan yr awdurdod lleol. Mae pob llyfrgell yn cynnig gwasanaeth llyfrgell creiddiol, sy'n darparu mynediad rhad ac am ddim i ddeunyddiau darllen ar bapur ac yn electronig, mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a chyswllt Wi-Fi, cefnogaeth i wella sgiliau a gwybodaeth am ystod eang o wasanaethau'r cyngor.

*Nodir y llyfrgelloedd hyn mewn glas ar y map.*

Lleolir llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn Llansawel, Blaengwynfi, Cymer Afan, Gwauncaegurwen, Resolfen, Taibach ac Ystalyfera. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan sefydliadau elusennol gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, sy'n darparu gwasanaeth a werthfawrogir yn fawr iawn. Fel gwasanaeth awdurdod lleol, rydyn ni'n cefnogi'r llyfrgelloedd hyn gyda system reoli llyfrgell, stoc o lyfrau llyfrgell, hyfforddiant a chefnogaeth broffesiynol. Oherwydd arweiniad Llywodraeth Cymru o ran Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, nid yw'r llyfrgelloedd hyn yn rhan o'n dyletswydd statudol.

*Nodir y llyfrgelloedd hyn mewn glas ar y map.*

## Gwasanaethu ein Cymunedau

Mae llyfrgelloedd yn darparu rhwydwaith gref o gefnogaeth i'n preswylwyr lleol, o foreau coffi i ymgysylltu ag eraill, i grwpiau darllen sy'n cefnogi llythrennedd ymysg oedolion. Gall ein gwasanaeth gyfuno ymladd unigrwydd ac ynysrwydd â manteision darllen, a'r cyfan o dan un to.

Mae Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot yn rhad i'w defnyddio yn y pwynt cyswllt, ac fe'u gwelir yn aml gan ein preswylwyr fel 'Siop Un Stop' ar gyfer eu holl anghenion lleol. Ymysg gwasanaethau presennol mae:

- Mynediad i lyfrau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i annog a chefnogi darllen er pleser a chynyddu llythrennedd.
- Help gyda chwilio am swydd, cyfansoddi CV, cwrdd â chynrychiolydd o Workways neu'r hyb Cyflogadwyedd
- Cynyddu hyder wrth ddefnyddio TG, hybu llythrennedd TG a dymchwel rhwystrau i gynhwysiant digidol
- Sbarduno creadigrwydd ac addysg ymysg oedolion a phlant drwy gyfrwng ein casgliadau o lyfrau, profiadau dysgu ysbrydoledig a chyffrous, a digwyddiadau gydag awduron
- Darparu lle cynnes, diogel i'n preswylwyr o bob oedran
- Datblygu sgiliau gwybyddol ac ymarferol gydag ystod eang o glybiau crefft, grwpiau gwau a gweithgareddau gemau bwrdd.
- Ailddarganfod y gorffennol gyda Sgyrsiau Hanes Lleol, sesiynau 'Hanes ar Flaenau eich Bysedd' a chreu diddordeb yn ein hardal leol a'i diwylliant.
- Annog cyfranogiad yn y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng sesiynau Canu a Rhigymu, amser stori a gweithgareddau chwarae
- Cefnogi iechyd a llesiant drwy gyfrwng deunyddiau darllen sy'n annog dihangfa, gwybodaeth, cynllun Darllen yn Well, a chreadigrwydd
- Cefnogi gwaith Adran Addysg yn y Cartref y Cyngor gyda sesiynau blasu, boreau coffi rheolaidd a digwyddiadau dysgu a gynhelir mewn llyfrgelloedd.

Rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu lle ac amgylchedd croesawgar i bawb, ble hyrwyddir cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan greu lleoliad diogel a chynhwysol. Ynghynt eleni, fe gymeron ni ran yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2024-2028 sy'n adlewyrchu penderfyniad yr awdurdod i hybu cydraddoldeb cyfle go iawn, taclo gwahaniaethu, a chreu cymdeithas decach a mwy cyfartal yng Nghastell-nedd Port Talbot. Un maes yr hoffem ei ddatblygu yw hygyrchedd i'n preswylwyr niwroamrywiol. Dros y misoedd diwethaf rydyn ni wedi creu fideos ar lein o bob llyfrgell, gan greu taith rithiol y gellir mynd arni cyn dod i adeilad corfforol y llyfrgell. Gobeithio y bydd hyn, ynghyd â chyflwyno clustffonau sy'n diddymu sŵn, yn dymchwel rhai o'r rhwystrau a wynebir.

## Gwerthuso ein gwasanaeth

Mae gwerthuso'n rhan allweddol o ddarparu ein gwasanaeth, a chofnodir faint o ddefnydd a wneir yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae'r tablau gwybodaeth ddarluniadol a ddangosir isod yn rhoi trosolwg o'r defnydd a wnaed o lyfrgelloedd ar gyfer 2022/2023 a 2023/2024. Mae cymharu â'r flwyddyn flaenorol yn tynnu sylw at feysydd ble gwelwyd cynnydd o fewn y gwasanaeth.

## Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot 2022-23

Nifer o fenthycwyr gweithredol*

**16066**

Nifer o ymweliadau â llyfrgelloedd*

**355278**

Nifer o lyfrau a fenthycwyd ers 2020




**98%**

% o ddefnyddwyr sy'n fodlon neu'n fodlon iawn â'u hymweliad â'r llyfrgell (Arolwg Mawrth 2023)

Nifer i fynychwyr digwyddiadau mewn llyfrgell*

**50728**

Nifer o lyfrau newydd a ychwanegwyd at y stoc*

**18183**

Nifer o oriau y defnyddiwyd cyfrifiaduron y llyfrgell*

**21494**

Cyfanswm niferoedd y troeon i stopiodd y llyfrgell symudol

**75**

Cyfanswm nifer y cyflenwadau cartref blynyddol*

**551**

Cyfanswm nifer y llyfrau ar silffoedd y llyfrgell*

**201872**

Nifer y llyfrau y gofynnwyd amdanynt*

**11524**

Nifer o ymweliadau â gwefan y llyfrgell*

**20192**

*Data 2022/23
**Amcangyfrif 2024/25

## Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot 2023-24

Nifer o fenthycwyr gweithredol*

**18929**

Nifer o ymweliadau â llyfrgelloedd*

**431829**

Nifer o lyfrau a fenthycwyd ers 2020




**99%**

% o ddefnyddwyr sy'n fodlon neu'n fodlon iawn â'u hymweliad â'r llyfrgell (Arolwg Hydref 2024)

Nifer i fynychwyr digwyddiadau mewn llyfrgell*

**56994**

Nifer o lyfrau newydd a ychwanegwyd at y stoc*

**14890**

Nifer o oriau y defnyddiwyd cyfrifiaduron y llyfrgell*

**28528**

Cyfanswm niferoedd y troeon i stopiodd y llyfrgell symudol

**75**

Cyfanswm nifer y cyflenwadau cartref blynyddol**

**588**

Cyfanswm nifer y llyfrau ar silffoedd y llyfrgell

**199534**

Nifer y llyfrau y gofynnwyd amdanynt*

**4553**

Nifer o ymweliadau â gwefan y llyfrgell*

**31444**

*Data 2023/24
**Amcangyfrif 2024/25

## Amcanion Llesiant



Dros oes bum mlynedd y Strategaeth hon, bydd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn sicrhau fod ei raglen ddarparu'n parhau i alinio'n agos â phedwar amcan llesiant y cyngor, fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2024-2027.

<u>Amcan Llesiant 1. Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd</u>

Gwyddom y gall llyfrgelloedd helpu i ddileu rhai o'r rhwystrau y gall plant eu hwynebu yn eu bywydau. Ceir digon o dystiolaeth ledled Prydain, ac o blith ein haelodau llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n dangos y rôl gadarnhaol sydd gan y llyfrgell i'w chwarae yn natblygiad y plentyn, p'un ai yw hyn drwy ddarparu lleoliadau diogel a chynhwysol, casgliadau llyfrau o ansawdd uchel neu gael mynediad i weithgareddau addysgol y mae llyfrgelloedd yn eu darparu ar gyfer plant Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi ymroi i gynnig cyfleoedd ystyrlon i blant yn eu blynyddoedd cynnar, gyda'r amcan o sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer pontio i addysg ffurfiol.

Drwy gyfrwng ein Cydlynydd Dechrau Da rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â BookTrust Cymru i helpu plant bach ddatblygu cariad at ddarllen o'u genedigaeth. Mae cynllun Dechrau Da yn darparu pecynnau dwyieithog i i deuluoedd â babis bach a gyflenwir drwy gyfrwng y cydlynydd i ymwelwyr iechyd, sydd yn eu tro'n eu dosbarthu'n eang ledled Castell-nedd Port Talbot. Ariennir Dechrau Da yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan BookTrust. Mae pecynnau Babi a Blynyddoedd Cynnar ar gael oddi wrth lyfrgelloedd o fewn Castell-nedd Port Talbot yn ogystal.

Ar ben hyn, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn darparu rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau canu a rhigymu ar draws pob llyfrgell, sy'n helpu i annog cariad at gyd-ddarllen rhwng plant a'u rhieni / darparwyr gofal. Yn ogystal â bod yn sesiynau pwysig sy'n galluogi i fabis a phlant bach gael cyfle i gymdeithasu gyda phlant eraill, maen nhw hefyd yn darparu rhwydwaith gefnogi a chyngor anffurfiol amhrisiadwy i rieni a gofalwyr.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot yw un o'r ychydig awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cynnig Llyfrgell Deganau. Cefnogir hyn drwy arian grant, ac mae'n darparu ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig, ynghyd â chylchoedd chwarae, clybiau ar ôl ysgol, gofalwyr maeth a gwarchodwyr plant. Benthycir teganau i ysgolion hefyd, drwy gytundeb a sefydlwyd gyda Chanolfan Adnoddau'r Llyfrgell Addysg. Nod y Llyfrgell Deganau yw darparu cyfleuster benthyca teganau'n rhad ac am ddim i alluogi plant i gael mynediad i chwarae sy'n eu sbarduno, gan wella pob agwedd ar eu datblygiad. Mae'r Llyfrgell Deganau wedi ymgysylltu ag Adran Blynyddoedd Cynnar Castell-nedd Port Talbot i drafod cyfleoedd o ran datblygu digonolrwydd chwarae o fewn y fwrdeistref, ac mae wedi cyfrannu at ddatblygu

Strategaeth Chwarae Castell-nedd Port Talbot. Fel yn achos Dechrau Da, mae'r Llyfrgell Deganau hefyd yn rhan hanfodol o'n gwaith o gefnogi plant wrth iddyn nhw bontio i addysg.

Pan fydd plant wedi cyrraedd oedran ysgol, bydd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn darparu ystod o ddeunyddiau a rhaglen weithgareddau reolaidd i gefnogi pobl sy'n addysgu gartref.

Yn ogystal â chwarae rhan bwysig mewn sicrhau fod llythrennedd, gan gynnwys darllen er pleser, yn rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn, mae'r gwaith hwn yn helpu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad a all wynebu rhai plant. Drwy gyfrwng darparu digwyddiadau o safon uchel, a all gynnwys dysgu oddi wrth awduron a darlunwyr proffesiynol, gallwn ni helpu i feithrin breuddwydion ac uchelgais plant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Y tu hwnt i hyn, gall y digwyddiadau hyn ddarparu profiadau pleserus, sbardunol ac ysbrydoledig i blant, all eu helpu i adeiladu profiadau cadarnhaol yn yr ysgol. Gall hyn yn ei dro gyfrannu at ein cyfrifoldeb cyfun i annog gwell presenoldeb yn yr ysgol.

Ym mis Hydref 2024, cynhaliodd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ŵyl Lyfrau Plant gyntaf Castell-nedd Port Talbot. Digwyddodd Gŵyl Lyfrau Plant Castell-nedd Port Talbot: Ysgrifennu, Darlunio, Creu dros gyfnod o bum wythnos, gan ddarparu 25 digwyddiad ysgrifennu creadigol a darlunio, ynghyd ag adrodd straeon i blant 4-16 oed. Cynhaliwyd digwyddiadau mewn llyfrgelloedd, ysgolion ac ym Mharc Margam. Roedd yr ŵyl yn cynnwys gweithdai a pherfformiadau gan sawl awdur a darlunydd adnabyddus o Gymru, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Amcan yr ŵyl oedd darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot, a'u teuluoedd ble roedd hynny'n addas, i ymgysylltu mewn gweithgareddau i ysbrydoli a sbarduno. Yn ogystal â bod yn ysbrydoliaeth, roedd yr ŵyl hefyd yn ceisio arfogi plant â sgiliau ymarferol a syniadau i wella'u creadigrwydd a'u haddysg eu hunain.



Gall y Gwasanaeth Llyfrgelloedd chwarae rhan bwysig mewn darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Gan weithio gyda'n partneriaid ym myd addysg, gallwn helpu i dorri'r cyswllt rhwng llythrennedd a chefndir cymdeithasol, a helpu i sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

## Amcan Llesiant 2. Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy

Ar anterth pandemig Covid yn 2020, llyfrgelloedd oedd un o'r gwasanaethau cyntaf oedd yn wynebu'r cyhoedd i ailagor. Er gwaetha mwy o gyfnodau clo, ni wnaeth llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot gau'u drysau'n llwyr wedyn, gan barhau i gynnig gwasanaeth llyfrgell sylfaenol i lawer o bobl. Ond fe wnaeth y gwasanaeth llyfrgell sylfaenol hwn gymaint mwy na hynny. Dywedodd nifer o ymwelwyr â'r llyfrgell ar yr adeg honno mor bwysig oedd gweld y llyfrgell ar agor iddyn nhw. Bu'n help wrth adeiladu patrwm rheolaidd i'w bywyd wythnosol, fe'u galluogodd i gadw cyswllt ag eraill a'u cadw'n rhan o'r gymuned. Taflodd y pandemig olau ar y rôl hanfodol sydd gan


Llyfrgell
Deithiol
Mobile
Library
Neath Port Talbot
LIBRARIES
LLYFRGELLOEDD
Castell-nedd Port Talbot
www.npt.gov.uk/libraries

lyfrgelloedd yn llawer o'n cymunedau, gan helpu i gysylltu preswylwyr â'i gilydd, ac â'r Cyngor.

Mae darparu gwasanaethau i breswylwyr nad ydyn nhw, am ba bynnag reswm, yn gallu ymweld â'r llyfrgell, yn rhan bwysig o'n gwaith. Drwy gyfrwng ein Hadran Gwasanaethau Cymunedol, rydyn ni'n darparu Gwasanaeth Cyflenwi i'r Cartref, i'r bobl fwyaf bregus yn y gymuned yn aml. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer cartrefi gofal preswyl a llety gwarchod, gan fynd â chasgliadau rheolaidd o lyfrau i breswylwyr yno. Yn ychwanegol, ar gyfer preswylwyr sy'n byw ymhellach na 5 milltir o lyfrgell leol, bydd ein gwasanaeth llyfrgell symudol yn ymweld ag ardaloedd penodedig bob tair wythnos. Mae'r rota hon yn cael ei monitro'n rheolaidd i gwrdd â'r galw a'r defnydd o'r gwasanaeth. Mae gan y llyfrgell symudol rôl ychwanegol wrth gefnogi ysgolion lleol, gan annog plant i ddatblygu cariad at ddarllen drwy ddewis eu deunydd darllen eu hunain.

Dros y blynyddoedd diweddar bu llyfrgelloedd cangen yn fannau a gefnogodd ddatblygiad grwpiau cymunedol. Yn Llyfrgell Sandfields, er enghraifft, bu'r llyfrgell yn allweddol wrth ddatblygu'r Llyfrgell Pethau gyda grwpiau cymunedol lleol, a bu'n greiddiol wrth gefnogi twf grwpiau cefnogi iechyd meddwl dynion lleol.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau ac adnoddau diriaethol i'n cymunedau, rydyn ni hefyd yn darparu ystod o adnoddau electronig. Mae'r rhain wedi galluogi ein gwasanaeth i ddarparu mynediad i wybodaeth a deunyddiau darllen 24/7. Ceir ystod eang o adnoddau ar gael fel llyfrau electronig (eLyfrau), llyfrau llafar (eAudio). A phapurau newydd a chylchgronau digidol (ePress, PressReader), a'r cyfan yn cael eu cyflenwi drwy apiau BorrowBox a PressReader. Yn atodol i hyn, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n cynnig adnoddau ychwanegol fel Ancestry Library Edition, Theory Test Pro ac Access to Research.

Yn 2023, ymunodd Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot â'r ymgyrch 'Llecynnau Cynnes Croesawgar' genedlaethol oedd yn cyfeirio aelodau'r cyhoedd at eu llyfrgell leol er mwyn cadw'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf. Cawsom y fraint o weld BBC Cymru'n tynnu sylw at hyn, gyda'r actor lleol Michael Sheen yn cymeradwyo'r cyfleusterau hyn ar deledu cenedlaethol. Mae ein llyfrgelloedd yn cynnig amgylchedd croesawgar, cyfleusterau rhad ac am ddim a diod gynnes.



Bydd y strategaeth hon yn sicrhau y gall llyfrgelloedd barhau i chwarae rhan hanfodol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni'i nod mwy hirdymor o greu cymunedau cynaliadwy ble gall pobl fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden yn eu hardal leol. Mae hefyd yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n chwarae rhan bwysig mewn cefnogi Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot 2023.

<u>Amcan Llesiant 3. Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth</u>

Mae llyfrgelloedd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn yn ddiwylliannol ac ymfalchïo yn eich cymuned. Boed hynny drwy fynychu digwyddiadau llenyddol, darparu deunydd darllen neu roi

cyfleoedd i siarad a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad cymdeithasol, dywed ein haelodau wrthym fod y llyfrgell yn meithrin yr ymdeimlad hwn o berthyn yn ddiwylliannol. Mae'n rhan bwysig o'r hyn y mae'r llyfrgell yn ei ddarparu'n feunyddiol ar gyfer pob oedran. Rydyn ni wedi ymroi i wreiddio cariad at straeon traddodiadol o Gymru ymysg y plant sy'n ymweld â'n llyfrgelloedd. Rydyn ni'n ymgysylltu â dysgwyr y Gymraeg ac yn cynnig lle iddyn nhw ymarfer sgwrsio yn Gymraeg mewn awyrgylch hamddenol. Yn ogystal, rydyn ni'n darparu cyfleoedd i oedolion ysgrifennu am eu profiadau diwylliannol, a'u rhannu ag eraill, ein nod yw cynnwys unigolion mewn diwylliant a threftadaeth mewn modd gweithredol yn eu cymuned.

Mae ein gwasanaeth yn cefnogi Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Castell-nedd Port Talbot  2023-2028 ac amcan Llywodraeth Cymru i gael 'miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050' drwy ddarparu ystod eang o ddeunyddiau Cymraeg fel llyfrau, llyfrau llafar ac e-lyfrau, cyflogi staff sy'n rhugl yn y Gymraeg a all gynorthwyo defnyddwyr yn yr iaith, cynnal digwyddiadau Cymraeg fel ymweliadau gan awduron a grwpiau darllen, a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn modd cyffredinol o fewn lleoliad y llyfrgell, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg lleol yn aml, gan beri yn ei hanfod fod mynediad at y Gymraeg yn hawdd cael ato ochr yn ochr â gwasanaethau Saesneg.

Mae gan y Gwasanaeth Swyddog Addysg Treftadaeth penodedig sy'n cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol drwy gyfrwng ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer oedolion a phlant. Gan weithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Addysg, maen nhw'n cefnogi gwaith ysgolion drwy greu cynllun dysgu sy'n cael ei deilwra i bob cais unigol. Mae gan y gwaith gyswllt cryf â'r Cwricwlwm Cymreig, ac mae wedi'i wreiddio yn egwyddorion Cynefin, sy'n cysylltu diwylliant, lle ac addysg ynghyd. Gall y sesiynau hyn gynnwys ymweliadau gan ddosbarth, teithiau tywys a theithiau o ddiddordeb hanesyddol o gwmpas Castell-nedd Port Talbot.

Bydd y Swyddog Addysg Treftadaeth hefyd yn datblygu arddangosfeydd rheolaidd sy'n cynnwys eitemau ac arteffactau o'r ardal leol. Rhoddir y rhain mewn lleoliadau cyhoeddus a llyfrgelloedd yn aml, yn ogystal â bod ar gael i'w gweld ar lein.

Mae llawer o'n preswylwyr yn mwynhau sgyrsiau rheolaidd am hanes lleol a leolir yn ein llyfrgelloedd, yn ogystal â mynediad rhad ac am ddim i rifyn llyfrgell Ancestry Library Edition UK. Dros y blynyddoedd diweddar, sefydlwyd Clwb Archeolegwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot, sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Archeoleg Prydeinig, ac mae'n cynnal sesiynau misol ble gall plant ymwneud â'r gorffennol.

Yn ganolog i ailddatblygiad diweddar Llyfrgelloedd Castell-nedd a Phort Talbot, oedd y syniad o'u sefydlu fel llyfrgelloedd cyrchfan. Mae'r ddwy lyfrgell hon, gyda'u cyfleusterau modern a gwell adnoddau, yn cyfrannu at ddenu ymwelwyr i ganol ein trefi. Mae ganddyn nhw ran bwysig mewn cyfeirio ymwelwyr, yn enwedig twristiaid, i leoliadau a chyrchfannau eraill yn y sir.





Dechreuodd y Strategaeth Llyfrgelloedd flaenorol, 2016-23, ar y broses o newid i sicrhau fod cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol yn ffactorau allweddol wrth ymgymryd ag unrhyw ddatblygiadau. Bydd y Strategaeth hon yn symud hyn ymhellach ymlaen.

Mae llyfrgelloedd yn ailgylchwyr wrth reddf, gan ddarparu deunydd darllen i'n preswylwyr y gellir ei fwynhau drosodd a throsodd. Bydd ein cyflenwyr llyfrau'n gweithio'n ddiflino i leihau effaith amgylcheddol cynhyrchu a chyhoeddi llyfr, gan ffynonellu papur a deunyddiau gan gadw llygad ar gynaliadwyedd. Rydyn ni'n cydweithio gyda'n cyflenwyr ac ar draws ein cadwyni cyflenwi i greu newid cadarnhaol. Un enghraifft o hyn yw gweithio i leihau'r defnydd o gloriau plastig ar lyfrau.

Gan gyfrannu ymhellach at yr agenda gwyrdd, rydyn ni'n bwriadu cyflwyno cardiau llyfrgell bioddiraddadwy a digidol i leihau ein defnydd o gardiau llyfrgell plastig. Yn ychwanegol, byddwn ni hefyd yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o bapur, gan ddefnyddio dulliau digidol amgen mewn llyfrgelloedd pan fo'n ymarferol gwneud hynny.

Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi gwneud newidiadau o ran sut rydyn ni'n adfywio ac ailgylchu ein hen stoc o lyfrau. Pan fydd llyfr yn dod at ddiwedd ei oes gyda'n gwasanaeth, mae'n mynd ymlaen ar daith newydd i borfa ffres dan gefnogaeth cynllun partneriaeth gyda Betterworld Books. O ganlyniad i'r cynllun partneriaeth hwn, cyfrifwyd ein bod ni wedi achub 333 o goed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydyn ni hefyd yn cynllunio i wneud newidiadau pellach i'n fflyd o gerbydau. Ers 2020 rydyn ni wedi newid drosodd i ddefnyddio fan drydan ar gyfer ein tîm Gwasanaethau Cymunedol, a'r nod yw dod yn llwyr ddibynnol ar drydan, gyda'r bwriad o gael cerbyd trydan arall yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae prosiect cydweithredol diweddar gyda 'Lend Mend and Tend' wedi gweld creu Llyfrgell Pethau yn Llyfrgell Sandfields. Fe wnaeth staff y llyfrgell a'r Cydlynydd Ardal Leol amlygu angen ar gyfer gweld pwrpas cyffredin ymysg y gymuned. Gellir benthyca a dychwelyd offer a thaclau gyda cherdyn aelodaeth llyfrgell, am dâl bychan sy'n cael ei ad-dalu. Yn ogystal ag ystyried manteision rhannu eitemau'r cartref, mae hyn yn cyfrannu at Strategaeth Sero Net Agenda Gwyrdd Castell-nedd Port Talbot a Llywodraeth Cymru, drwy drwsio eitemau sydd wedi torri, yn hytrach na'u hanfon i dirlenwi. Rhan olaf y prosiect fu creu llecyn glas i breswylwyr o gwmpas y llyfrgell. Gosodwyd meinciau y tu allan i'r llyfrgell, rhoddwyd sglodion pren ar lawr, a darparwyd bocsys i blannu blodau. Mae'r prosiect yn creu cyfleoedd i wirfoddolwyr, a chefnogaeth addysgol i'r ysgolion cynradd lleol ynghylch materion amgylcheddol.

Amcan Llesiant 4. Bod Gan Bobl Leol Sgiliau a'u Bod yn Gallu Cael Mynediad i Swyddi Gwyrdd o Ansawdd Uchel

Bu llyfrgelloedd yn lleoliadau addysg erioed. Yng Nghastell-nedd Port Talbot rydyn ni'n cefnogi dysgwyr annibynnol gyda mynediad i adnoddau, a dysgwyr ffurfiol gyda dosbarthiadau, mewn partneriaeth â'n darparwyr addysg.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan allweddol o'n strwythur beunyddiol, a thros y blynyddoedd adeiladwyd perthynas weithio gref â sawl sefydliad addysg, a grwpiau elusennol a gwirfoddol i'w helpu i ddatblygu sgiliau preswylwyr. Mae darparu lle diogel i gwrdd â chleientiaid yn hanfodol i lawer o weithwyr. Wrth i nifer o sefydliadau ei chael hi'n anodd dod o hyd i le ar gyfer swyddfa, mae ein llyfrgelloedd yn cynnig amgylchedd croesawgar a chynnes.

Rydyn ni'n bartneriaid gweithredol gydag Addysg Gymunedol i Oedolion ar draws y rhanbarth, gyda Phrifysgol Abertawe a Chyflogadwyedd NPT. Yn ogystal, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Addysg a Gwaith i ddatblygu rhaglen Wythnos Addysg Oedolion bob blwyddyn.



Yn ystod oes y Strategaeth hon, byddwn ni’n mynd ati i gryfhau ein cysylltiadau partneriaeth ymhellach, er mwyn cefnogi dysgu, uwchsgilio a chyflogi yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mewn hinsawdd economaidd sy’n newid drwy’r amser, mae hi’n bwysig fod llyfrgelloedd yno i wasanaethu’r bobl yn y gymuned gan gynnig adnoddau â sail leol, a chwarae rhan mewn lleihau tlodi.

Dau faes ble gwelsom ddatblygiad dros y blynyddoedd diweddar fu drwy gefnogi busnesau bach a’r hunangyflogedig, a thrwy gyfrannu at yr economi cylchol. Mae llyfrgelloedd wedi dod yn bethau amhrisiadwy i lawer o fusnesau bach lleol a phobl hunangyflogedig, fel mannau ble gallant gael mynediad i adnoddau, defnyddio llecynnau i weithio / cyfarfod ynddynt, rhannu sgiliau a gwybodaeth a chysylltu ag eraill yn yr un maes â nhw. Yn 2023, fe ddatblygon ni ardal ‘Makerspace’ yn Llyfrgell Port Talbot. Un o amcanion y prosiect hwn oedd creu adnodd ble gallai busnesau ac unigolion elwa. Yn 2024 rydyn ni wedi rhoi cyfleoedd i bobl wella’u sgiliau, wedi helpu busnesau bychain weithredu, ac wedi cyfrannu at yr economi cylchol. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn ni’n parhau i wella ein llyfrgelloedd a rhoi bywyd newydd i’n lleoliadau, er mwyn i lawer mwy o bobl allu elwa yr un modd.

## Beth mae Pobl Castell-nedd Port Talbot yn ei Ddweud?



In October 2024 a survey was published by the Library Service giving residents of Neath Port Talbot the opportunity to provide feedback on the service currently offered. This also included a section for suggestions of what they would like to see from their local library.

Derbyniwyd cyfanswm o 667 o ymatebion, a rhestrwyd y pum prif fantais o ddefnyddio ein llyfrgelloedd fel a ganlyn:

- Benthyca llyfrau am ddim
- Lle diogel a chroesawgar
- Cefnogaeth oddi wrth staff y llyfrgell
- Lle i ddod o hyd i wybodaeth
- Lle i gwrdd â phobl

Dengys y data a gasglwyd mai’r brif fantais a restrwyd oedd ‘gallu cael mynediad i fenthyca llyfrau’n rhad ac am ddim’.

Pan holwyd pa mor fynych y defnyddir y llyfrgell, dengys y data a gasglwyd mai 2-3 gwaith y mis oedd yr ateb mwyaf poblogaidd.

Dengys y graff isod y prif fanteision a’r canlyniadau.



Lle mor braf, mae staff bob amser yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar ac yn cymryd yr amser i'ch helpu i ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch, neu hyd yn oed ychwanegu rhai awgrymiadau o lyfrau y gallech eu hoffi!! Mewn gwirionedd ewch y filltir ychwanegol.
Mae'r llyfrgell hon yn ganolfan wych ar gyfer llawer o wahanol fathau o weithgareddau. Mae'r croeso gan holl aelodau'r llyfrgell mor gyfeillgar a chymwynasgar mae'n bleser ymweld â hi.
Mae ein llyfrgell leol yn adnodd gwych. Mae ein plant yn 4 ac 8, ac mae yna bob amser llyfr newydd iddyn nhw ei ddarllen neu i ni ei ddarllen gyda nhw. Mae'n eu cadw yn frwdfrydig, yn eu hannog i ddarllen ac i ddysgu, yn eu cadw i ffwrdd o ddenu sgriniau, yn caniatáu iddynt ddianc i fyd arall, dysgu, chwerthin a mwynhau stori wahanol.
Rydyn ni'n dibynnu ar y llyfrgell leol ac yn ymweld sawl gwaith yr wythnos. Mae'r staff yn anhygoel ac mae'r gweithgareddau sydd ar gael yn ogystal â'r llyfrau plant wedi bod yn amhrisiadwy.

## Dyfodol Gwasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot

Mae rôl y llyfrgell gyhoeddus wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd. Un maes ble mae llyfrgelloedd yn rhagori yw addasu i'r newid yn anghenion ein cymunedau. Mae ymgysylltu rheolaidd â'r gymuned, ac ymwneud â hi'n sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaeth gorau law yn llaw â darparu ar gyfer newidiadau yn ein hardal leol.

Amlinellir ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf isod, a byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar wella ein gwasanaethau a buddsoddi ynddynt.

| Amcan | Gweithredoedd | Canlyniad |
|---|---|---|
| Gwella Cyfleusterau yn Llyfrgelloedd Sandfields a Phontardawe. | Gwneud cais am Arian Grant Cyfalaf Trawsnewid. | Gwell profiad i'r defnyddiwr. |
| Buddsoddi mewn fan Transit drydan. | Sicrhau cytundeb les fforddiadwy. | Dull gwyrddach a mwy effeithlon o ddarparu. |
| Hygyrchedd Llyfrgelloedd. | Creu fideos o bob llyfrgell dan ofal Castell-nedd Port Talbot. | Dileu rhwystrau i fynd i mewn i adeilad am y tro cyntaf. |
| Cyflwyno cardiau llyfrgell digidol. | Archwilio opsiwn o fewn y System Reoli Llyfrgelloedd newydd. | Dim angen defnyddio cerdyn go iawn, hawdd i'r defnyddiwr ei ddefnyddio a lleihad mewn costau gwariant. |
| Cyflwyno cyfrifiaduron PC mynediad cyhoeddus newydd yn raddol. | Creu a chynllunio cynllun i gyflwyno hyn yn raddol dros bum mlynedd yn holl lyfrgelloedd NPT. | Mwy o ddiogelwch, diweddaru defnydd a thechnoleg. |
| System archebu digwyddiadau ar lein. | Hyfforddi staff i ddefnyddio'r system a gynigir drwy'r System Reoli Llyfrgelloedd newydd. | Gellir archebu 24 awr y dydd. Gwella cyfleusterau a phrofiad y defnyddiwr. |
| Datblygu mentrau hybu darllen. | Ystyried creu gwasanaeth tanysgrifio ar lein. | Mynediad cyfleus i'r gwasanaeth llyfrgell, wedi'i deilwra i'r defnyddiwr / unigolyn. |
| Ystyried adleoli Llyfrgell Port Talbot. | Archwilio cyd-leoli neu integreiddio gyda gwasanaethau eraill y cyngor. | Arbedion arfaethedig o symud o safle manwerthu ar rent. |
| Mwy o integreiddio gyda gwasanaethau eraill a gynhelir gan y cyngor i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid ar draws yr awdurdod lleol. | Hyfforddi staff y rheng flaen i gefnogi, cynorthwyo a chyfeirio preswylwyr lleol i adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod. | Cynnydd ym modlonrwydd cwsmeriaid. |



Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio'r llyfrgell?
250
200
150
100
50
0
Mwy nag unwaith yr wythnos
2-3 gwaith y mis
Unwaith y mis
Unwaith yn ystod y 3-6 mis diwethaf
Unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
Dydw i ddim wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
Erioed wedi ymweld â llyfrgell yn NPT
Mwy nag unwaith yr wythnos
2-3 gwaith y mis
Unwaith y mis
Unwaith yn ystod y 3-6 mis diwethaf
Unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
Dydw i ddim wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
Erioed wedi ymweld â llyfrgell yn NPT

Yn eich barn chi beth yw'r prif fanteision i chi o ddefnyddio'r llyfrgell?

